**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Iau 19 Rhagfyr ac fe basiodd yr Ail Ddarlleniad y diwrnod canlynol. Mae'r Bil i'w weld yn: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-01/0001/20001.pdf.

**Amcan Polisi**

3. Yr amcan polisi sydd wedi'i ddatgan gan Lywodraeth y DU yw galluogi'r DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd mewn modd trefnus, gyda chyfnod gweithredu i alluogi i drefniadau newydd gael eu sefydlu ar gyfer perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Noddir y Bil gan yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer rhoi'r Cytundeb Ymadael ar waith yn y DU trwy ei ymgorffori yng nghyfraith y DU a darparu pwerau ar gyfer ei roi ar waith ymhellach yn ôl yr angen. Bydd y Bil hefyd yn rhoi'r cytundebau gwahanu a wnaed â gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Ardal Masnach Rydd Ewropeaidd (EEA EFTA) a'r Swistir ar waith mewn ffordd debyg. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer hawliau dinasyddion ar ôl ymadael â'r UE, ac yn sefydlu Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer yr hawliau hynny. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion y Goron a Gweinidogion mewn Gweinyddiaethau Datganoledig gael y pwerau angenrheidiol i roi'r Cytundeb Ymadael ar waith ac ar gyfer pontio i unrhyw drefniadau yn y dyfodol.

6. Y cymalau sydd â pherthnasedd arbennig i faterion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yw:
    - Rhan 1 – Cyfnod Gweithredu;
    - Rhan 2 – Rhoi gweddill y Cytundeb Ymadael ar waith etc. cyffredinol;
    - Rhan 3 – cymalau 12-14, 16-17 ac Atodlen 1 (gweithredu Rhan 2 o'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion lle bo cymhwysiad datganoledig) a chymal 15 ac Atodlen 2 (yn ymwneud â'r Awdurdod Monitro Annibynnol);
    - Rhan 4 – cymalau 18-19 (materion gwahanu eraill), cymalau 21-22

(Gogledd Iwerddon), cymalau 25-28 (y berthynas â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (‘EUWA’) a phŵer ategol i godi ffioedd), cymal 29 (adolygu deddfwriaeth yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu) a chymal 36 (diddymu deddfiadau diangen neu rai sydd wedi’u disbyddu). Rhan 5 – cymalau 38-42, Atodlenni 4 a 5 (darpariaethau cyffredinol a therfynol).

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

Mae'r Bil yn rhoi nifer o bwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Nodir y darpariaethau perthnasol, a gweithdrefnau'r Cynulliad, yn yr Atodiad.

Byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y darpariaethau canlynol:

*Rhan 1 – Cyfnod Gweithredu*

*Cymalau 1 a 2 - Cyfraith wedi'i harbed ar gyfer y cyfnod gweithredu*

7. Mae'r cymalau hyn yn mewnosod adrannau 1A a 1B newydd yn Neddf yr UE (Ymadael) 2018 (EUWA) ac yn arbed Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (ECA) at ddibenion y cyfnod gweithredu pan fydd y rhan fwyaf o gyfraith yr UE yn dal yn gymwys. Maent hefyd yn darparu i glosau deongliadol fod yn gymwys i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE, fel y diffinnir gan yr adran 1B newydd. Maent yn darparu hefyd y caiff Gweinidog y Goron wneud addasiadau ychwanegol fel y bo'n briodol at ddiben Rhan 4 o'r Cytundeb Ymadael.

8. Byddai angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hyn gan eu bod yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru trwy barhau â'r gofyniad i gydymffurfio â chyfraith yr UE. Wrth arbed Deddf y Cymunedau Ewropeaidd er mwyn iddi barhau i fod yn gymwys yn y DU bydd hyn yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad gan y bydd y cyfyngiadau wrth gydymffurfio â chyfraith yr UE yn dal yn gymwys, a bydd y pwerau sy'n dychwelyd i'r Cynulliad o ganlyniad i ymadael yn gyfyngedig unwaith eto. Felly byddai ar gymalau 1 a 2 angen cydsyniad y Cynulliad gan eu bod yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

9. Daw'r cymalau hyn yn ddeddfiadau gwarchodedig (gweler paragraff 31 o Atodlen 5 i’r Bil). Bydd unrhyw ddeddfiadau gwarchodedig ychwanegol felly'n newid y cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd ehangu cwmpas y deddfiadau gwarchodedig. Bydd hyn yn wir p'un a fydd cynnwys yr addasiad hwnnw'n dod o fewn meysydd datganoledig neu beidio gan y bydd y ffaith bod darpariaeth yn cael ei chategoreiddio fel deddfiad gwarchodedig yn atal y Cynulliad rhag gwneud hyd yn oed ddarpariaeth ganlyniadol yn y dyfodol. Cyflwynir y cymalau hyn i'r Cynulliad eu hystyried ar gyfer cydsyniad gan y byddant yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ymhellach mewn ffordd wahanol i'r hyn a esboniwyd yn y paragraff blaenorol.

*Cymalau 3 a 4 - Pwerau atodol*

10. Mae cymal 3 yn mewnosod adran 8A yn EUWA, sy'n darparu ar gyfer pwerau atodol mewn cysylltiad â'r cyfnod gweithredu. Mae adran 8A yn rhoi pŵer i Weinidog y Goron wneud darpariaeth sydd, ymhlith pethau eraill, yn briodol ym marn y Gweinidog at ddibenion Rhan 4 o'r Cytundeb Ymadael, neu fel arall mewn cysylltiad â'r Rhan honno. Gwneir pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig[1] yng nghymal 4 sy'n mewnosod Rhan 1A yn Atodlen 2 i EUWA.

11. Mae'r pwerau yn y cymalau hyn yn eang a gellid eu defnyddio i wneud darpariaethau o fewn meysydd datganoledig sy'n rhoi'r Cytundeb Ymadael ar waith. Ar y sail hon, byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y darpariaethau hyn.

*Rhan 2 – Rhoi gweddill y Cytundeb Ymadael ar waith etc: Cyffredinol*

*Cymalau 5 a 6 - Gweithrediad cyffredinol gweddill y cytundeb ymadael a gweithrediad cyffredinol cytundebau EEA EFTA a'r Swistir*

12. Mae cymal 5 yn mewnosod adran 7A yn EUWA. Mae adran 7A yn rhoi effaith i Erthygl 4 o'r Cytundeb Ymadael sy'n darparu i'r Cytundeb Ymadael gynhyrchu'r un effeithiau cyfreithiol â'r rhai o fewn yr Undeb Ewropeaidd a'i Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys, er enghraifft, effaith uniongyrchol. Mae cymal 6 yn mewnosod adran 7B yn EUWA, i sicrhau'r un effaith ar gyfer y cytundebau gwahanu ag EEA EFTA a'r Swistir.

13. Daw'r cymalau hyn yn ddeddfiadau gwarchodedig. Felly, byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar y sail y bydd y cymalau hyn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd dod yn ddeddfiadau gwarchodedig.

*Rhan 3 – Hawliau Dinasyddion*

*Cymalau 12 i 14 a 16-17 ac Atodlen 1 - Cydnabod cymwysterau proffesiynol, cydgysylltu systemau nawdd cymdeithasol a pheidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr etc. a phwerau awdurdodau datganoledig o dan adrannau 12, 13 a 14.*

14. Mae Rhan 3 o'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r rhan o'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion. Mae cymalau 12 i 14 yn ymwneud ag agweddau ar y Cytundeb Ymadael a allai ei gwneud yn ofynnol gwneud darpariaeth ddomestig i roi'r rhwymedigaethau ar waith yn effeithiol, a chan fod y meysydd hyn yn croestorri â meysydd o fewn cymhwysedd

[1] Mae ystyr 'cymhwysedd datganoledig' at ddiben y pŵer hwn hefyd yn cael ei darparu o fewn y cymal.

datganoledig y Cynulliad, mae pwerau wedi'u rhoi i'r awdurdodau datganoledig i wneud darpariaeth o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig[2].

15. Mae cymal 12 yn darparu y caiff awdurdod priodol wneud rheoliadau at ddibenion gweithredu Pennod 3 o Deitl II o Ran 2 o'r Cytundeb Ymadael, sy'n ymwneud â chymwysterau proffesiynol. Mae “awdurdod priodol” yn cynnwys Gweinidogion Cymru wrth weithredu o fewn cymhwysedd datganoledig.

16. Mae cymal 13 yn darparu y caiff awdurdod priodol wneud rheoliadau at ddibenion gweithredu Teitl III o Ran 2 o'r Cytundeb Ymadael, sy'n ymwneud â chydgysylltu systemau nawdd cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys mesurau yn ymwneud â gofal iechyd cilyddol, sydd wedi ei ddatganoli. Mae “awdurdod priodol” yn cynnwys Gweinidogion Cymru wrth weithredu o fewn cymhwysedd datganoledig.

17. Mae cymal 14 yn darparu y caiff awdurdod priodol wneud rheoliadau at ddibenion rhoi rhai o ddarpariaethau'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â pheidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr etc ar waith. Mae “awdurdod priodol” yn cynnwys Gweinidogion Cymru wrth weithredu o fewn cymhwysedd datganoledig.

18. Mae Atodlen 1 yn cynnwys manylion ynghylch sut y gall yr Awdurdodau Datganoledig arfer y pwerau hyn. Mae'n nodi pryd y caiff Gweinidogion Cymru weithredu'n annibynnol, pryd y mae arnynt angen cydsyniad Gweinidog y Goron cyn gwneud rheoliadau, a phryd y mae’n rhaid arfer y pwerau i wneud rheoliadau ar y cyd neu drwy ymgynghori. Seilir y gofynion hyn ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol a hefyd bwerau gweithredol presennol eraill Gweinidogion Cymru. Mae Atodlen 1 hefyd yn gosod yr un gofynion ar gyfer arfer pwerau gwneud rheoliadau ag sy'n gymwys lle y gallai Gweinidogion Cymru wneud yr un ddarpariaeth o dan ddeddfau eraill.

19. Rhaid i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y darpariaethau hyn sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol neu gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n gymwys yn uniongyrchol gael eu gwneud trwy'r weithdrefn gadarnhaol. Rhaid i unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan yr adran hon gael eu gwneud trwy'r weithdrefn negyddol.

20. Mae'r cymal hwn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ymwneud â gweithredu Rhan 2 o'r Cytundeb Ymadael ar hawliau dinasyddion lle bo'r gweithredu'n croestorri â meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli fel y nodir uchod.

21. Byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer cymalau 12 i 14 gan ei bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud darpariaeth sy'n rhoi'r Cytundeb Ymadael ar waith mewn meysydd datganoledig.

[2] Darperir ystyr ‘cymhwysedd datganoledig’ at ddiben y pwerau hyn yn Atodlen 1 i'r Bil.

22. Mae cymal 16 yn gwneud darpariaethau atodol mewn perthynas â rhai pwerau i wneud rheoliadau yn Rhan 2 gan gynnwys cymal 14. Mae cymal 17 yn cynnwys y diffiniadau sy'n ymwneud â Rhan 3 o'r Bil; defnyddir un o'r diffiniadau yng nghymal 14. Fel y nodir uchod, byddai cymal 14 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac felly byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer yr agwedd honno ar y darpariaethau hyn.

*Cymal 15 ac Atodlen 2 – Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer y Cytundebau Hawliau Dinasyddion*

23. Mae cymal 15 yn sefydlu'r Awdurdod Monitro Annibynnol a fydd yn monitro gweithredu a gorfodi Rhan 2 o'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion. Mae Atodlen 2 yn nodi cyfansoddiad yr Awdurdod a'i swyddogaethau. Fel yr adlewyrchir yng nghymalau 12 i 14, a drafodir uchod, bydd rhan o weithredu'r agwedd ar y Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud darpariaeth a fyddai'n monitro gweithredu a gorfodi'r agweddau hynny ar y Cytundeb Ymadael yng Nghymru.

24. Byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar y sail bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

*Rhan 4 – Meysydd pwnc eraill*

*Cymalau 18 a 19 - Prif bŵer mewn cysylltiad â materion gwahanu eraill a phŵer cyfatebol yn ymwneud ag awdurdodau datganoledig*

25. Mae cymal 18 yn mewnosod adran 8B yn EUWA sy'n darparu pŵer i Weinidog y Goron wneud darpariaeth sy'n briodol ym marn y Gweinidog i weithredu Rhan 3 o'r Cytundeb Ymadael (y darpariaethau gwahanu), neu ddarpariaeth sy'n atodi effaith adran 7a (effaith uniongyrchol y Cytundeb Ymadael) mewn perthynas â'r Rhan honno, neu fel arall at ddibenion ymdrin â materion sy'n deillio o'r Rhan honno, neu sy'n gysylltiedig â hi.

26. Mae cymal 19 yn mewnosod Rhan 1B yn Atodlen 2 yn EUWA i wneud darpariaeth gyfatebol ar gyfer y Gweinyddiaethau Datganoledig.

27. Mae materion a gynhwysir yn Rhan 3 o'r Cytundeb Ymadael yn eang, ond yn cynnwys materion sy'n ymwneud â chaffael a fyddai'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac mae'n bosibl y gallai fod angen gwneud darpariaeth mewn meysydd cymhwysedd datganoledig er mwyn i'r materion eraill gael eu gweithredu yn effeithiol[3]. Yn sicr, cydnabyddir y gallai gweithredu Rhan 3 ddigwydd mewn meysydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a dyna paham y gwneir darpariaeth benodol yng nghymal 19 i roi pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru.

[3] Fel y diffinnir yn y cymal.

28. Byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar y sail bod y darpariaethau hyn o fewn deddfwriaethol cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

*Gogledd Iwerddon*
*Cymalau 21 a 22 - Prif bŵer mewn cysylltiad â Phrotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon a phŵer cyfatebol yn ymwneud ag awdurdodau datganoledig.*

29. Mae cymal 21 yn mewnosod adran 8C yn EUWA i roi pŵer i Weinidog y Goron wneud rheoliadau i roi'r protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon ar waith ac i wneud darpariaeth atodol yn ôl yr angen. Rhoddir pwerau cyfatebol i'r Gweinyddiaethau Datganoledig weithredu mewn meysydd datganoledig gan gymal 22 sy'n mewnosod Rhan 1C yn Atodlen 2 i EUWA.

30. Byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar y sail bod y darpariaethau hyn o fewn deddfwriaethol cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

*Cymalau 25 i 27 – Y berthynas ag EUWA*

31. Mae cymal 25 yn gohirio dargadw cyfraith yr UE sydd wedi'i harbed, o'r diwrnod ymadael i ddiwedd y cyfnod gweithredu. Mae'n gwneud hyn drwy ddiwygio testun adrannau 2, 3, 4 a 5 o EUWA ac yn gwneud darpariaeth ychwanegol drwy fewnosod adran 5A newydd yn EUWA sy'n darparu ar gyfer arbed ac ar gyfer ymgorffori cyfraith yr UE sydd wedi'i harbed. Mae Atodlen 1 i EUWA yn cael ei diwygio hefyd i ohirio gweithrediad y ddarpariaeth arbed tan ddiwedd y cyfnod gweithredu.

32. Mae cymal 26 yn diwygio adran 6 o EUWA (dehongli cyfraith yr UE a ddargedwir) i ddisodli’r diwrnod ymadael â diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu, hynny yw diwedd y cyfnod gweithredu. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth arall ynghylch dehongli cyfraith yr UE a ddargedwir, gan gynnwys diffinio ‘cyfraith berthnasol ar y cytundeb gwahanu’. Mae hefyd yn caniatáu i un o Weinidogion y Goron, gan weithredu ar ôl ymgynghori, ddarparu rheoliadau ynghylch sut y caiff llysoedd y DU ddehongli cyfraith yr UE a ddargedwir, gan gynnwys darparu ar gyfer yr amgylchiadau lle nad yw’r llysoedd neu’r tribiwnlysoedd perthnasol wedi’u rhwymo gan gyfraith achosion yr UE a ddargedwir. Caiff y rheoliadau hefyd osod y prawf sydd i’w gymhwyso wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith o’r fath o ran cyfraith achosion yr UE a ddargedwir. Caiff y rheoliadau, fodd bynnag ddarparu y caiff y prawf gael ei bennu gan restr benodedig o aelodau’r farnwriaeth.

33. Mae cymal 27 yn diwygio adran 8 o EUWA i gymryd y cyfnod gweithredu i ystyriaeth ac i estyn y pŵer er mwyn ei ddefnyddio mewn perthynas â Rhan 4 o'r Cytundeb Ymadael (y cyfnod gweithredu). Mae hefyd yn gwneud diwygiadau i EUWA fel y bydd cyfeiriadau at y diwrnod ymadael bellach yn cyfeirio at ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu. Bydd y newidiadau hyn i adran 8 o EUWA yn berthnasol hefyd i bŵer Gweinidogion Cymru i gywiro diffygion ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i EUWA.

34. Daw'r cymalau hyn yn ddeddfiadau gwarchodedig.

35. Byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar y sail bod y darpariaethau hyn yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd dod yn ddeddfiadau gwarchodedig.

*Cymal 28 - Pwerau ategol i godi ffioedd*

36. Mae Cymal 28 yn diwygio cwmpas y pwerau i godi ffioedd yn Atodlen 4 i EUWA i gynnwys, lle bo'n briodol, y pwerau newydd y darperir ar eu cyfer yn y Bil.

37. Daw'r cymal hwn yn ddeddfiad gwarchodedig

38. Byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar y sail bod y ddarpariaeth hon yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd dod yn ddeddfiad gwarchodedig.

*Cymal 29 - adolygu deddfwriaeth yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu*

39. Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran 13A yn EUWA. Mae'n gymwys yn ystod y cyfnod gweithredu ac yn darparu rôl ar gyfer y Pwyllgor Dethol Craffu Ewropeaidd mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE a fabwysiedir gan yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu ac sydd felly'n gymwys i'r DU ac o'i mewn.

40. Gallai'r Pwyllgor ystyried deddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud â materion pwnc o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac felly byddai angen cydsyniad y Cynulliad.

*Cymal 36 – Diddymu deddfiadau sy’n ddiangen neu sydd wedi’u disbyddu*

41. Mae’r cymal hwn yn diddymu rhai deddfiadau sy’n ddiangen neu sydd wedi’u disbyddu. Mae’r darpariaethau yn EUWA sy’n cael eu ddiddymu yn ddeddfiadau gwarchodedig. Os yw mater pwnc y ddarpariaeth sy’n cael ei diddymu o fewn cymhwysedd y Cynulliad, bydd diddymu’r ddarpariaeth yn addasu cymhwysedd y Cynulliad yn rhinwedd y ffaith na fydd y ddarpariaeth yn ddeddfiad gwarchodedig bellach, gan gynyddu cymhwysedd y Cynulliad felly.

42. Byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar sail y ffaith fod y ddarpariaeth hon yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy leihau cwmpas deddfiadau gwarchodedig.

*Rhan 5 – Darpariaeth Gyffredinol a Therfynol*

*Cymal* 39 – *Dehongli*

43. Mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli'r Bil.

44. Byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar y sail bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

*Cymal 40 ac Atodlen 4 – Rheoliadau*

45. Mae Cymal 40 ac Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch y pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau.

46. Byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar y sail bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

*Cymal 41 ac Atodlen 5 – Darpariaethau Canlyniadol*

47. Mae Cymal 41 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â diwygiadau canlyniadol ac yn cyflwyno Atodlen 5 sy'n gwneud darpariaethau canlyniadol. Mae paragraff 1 o Atodlen 5 yn gwneud darpariaeth a fydd yn gohirio rhai Offerynnau Statudol (OSau) a wneir mewn perthynas â'r diwrnod ymadael tan ddiwedd y cyfnod gweithredu. Mae hyn yn cynnwys pŵer i awdurdod priodol eithrio OSau nad oes angen eu gohirio ac y mae angen iddynt ddod i rym ar y diwrnod ymadael. Mae awdurdod priodol yn cynnwys Gweinidogion Cymru.

48. Mae angen cydsyniad  ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil**

49. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod angen deddfwriaeth i gynnig eglurder a sicrwydd i ddinasyddion a busnesau wrth inni ymadael â'r UE. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno hefyd mai'r sefyllfa orau yw bod Senedd y DU yn gwneud y ddeddfwriaeth honno, a hynny ar ran y DU gyfan, gan mai dyna sy'n cynnig y mesur gorau o eglurder a sicrwydd i ddinasyddion a busnesau.

50. O ran sylwedd, rydym yn croesawu'r ffaith y byddai'r Bil yn darparu'r cyfnod gweithredu (neu bontio) y mae ei ddirfawr angen, ac rydym yn cytuno â'r dull gweithredu yn y Bil o gynnal y status quo yn gyffredinol o ran cymhwyso cyfraith yr UE yn y DU yn ystod y cyfnod pontio. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Bil yn darparu sicrwydd sylweddol i ddinasyddion yr UE sydd wedi dewis ymgartrefu yn y DU ac rydym yn credu bod y darpariaethau ar y setliad ariannol yn adlewyrchu ymrwymiad priodol y DU i gyflawni ei rhwymedigaethau. Rydym wedi cynnal trafodaethau dwys gyda Llywodraeth y DU ynghylch rôl y sefydliadau datganoledig o ran yr Awdurdod Monitro Annibynnol.

51. Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a gyhoeddwyd gennym ar gyfer y Bil fel y'i cyflwynwyd fis Hydref, roeddem yn dweud na allem gymeradwyo'r 'cytundeb' ymadael cyffredinol a ffefrid gan Lywodraeth y DU am nad oedd y Datganiad Gwleidyddol a oedd yn gysylltiedig ag ef yn rhoi llawer o sicrwydd y byddai'r berthynas â'r UE yn y dyfodol yn bartneriaeth glos iawn fel yr hyn a nodwyd yn ein Papur Gwyn *Diogelu Dyfodol Cymru* – safbwynt a oedd wedi'i

gymeradwyo sawl gwaith gan y Cynulliad Cenedlaethol. Roeddem yn anfodlon hefyd nad oedd y Cytundeb Ymadael yn rhoi terfyn ar y posibilrwydd o ymadael heb gytundeb ar ddiwedd y cyfnod gweithredu ac nad oedd yn darparu'r mesurau diogelu yr ydym yn awyddus i'w cael ar gyfer hawliau gweithwyr. Mae'r pryderon hynny ynglŷn â'r cytundeb yn parhau.

52. Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o bryderon eraill am y Bil fel y mae wedi'i gyflwyno erbyn hyn. Yn gyntaf, cam i'r cyfeiriad anghywir yw dileu'r cymal, yn fersiwn mis Hydref o'r Bil, a oedd yn rhoi rôl i Senedd y DU yn y broses o gynnal trosolwg ar y negodiadau am y berthynas â'r UE yn y dyfodol. Dylid adfer y cymal hwn – yn wir dylid ei gryfhau, gan roi rôl i'r sefydliadau datganoledig gan fod hyn yn hanfodol er mwyn i ni allu gwarchod cymhwysedd datganoledig.

53. Yn ail, newid annerbyniol arall i fersiwn mis Hydref o'r Bil yw'r gwaharddiad ar geisio estyniad i'r cyfnod pontio. Mae hyn yn ailgodi'r posibilrwydd, ar ddiwedd y cyfnod pontio, naill ai na fydd cytundeb o gwbl ar gyfer cysylltiadau masnach â'r UE yn y dyfodol neu y ceir cytundeb a luniwyd ar frys ac sydd felly'n annigonol. Byddai'r effaith yn niweidiol iawn i Gymru.

54. Yn drydydd, nid oes cyfyngiadau wedi'u gosod ar y pwerau i wneud rheoliadau ar gyfer gweithredu Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon. Mae hynny'n golygu y gallai pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol gael eu defnyddio i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ac felly i newid cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad heb i'r Cynulliad gydsynio i hynny. Pe bai angen newidiadau er mwyn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, mae mecanwaith sefydledig wedi'i ddarparu o dan adran 109 er mwyn addasu Atodlenni 7A a 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru ac, yn bwysig, mae angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer hynny.

55. Yn bedwerydd, dylai cymal 38, sy'n datgan sofraniaeth y Senedd, gynnwys cyfeiriadau hefyd at y Deddfau Seneddol a sefydlodd y setliadau datganoli ac at y ffaith nad yw Senedd y DU fel arfer yn deddfu ynghylch materion datganoledig heb gydsyniad y Deddfwrfeydd Datganoledig.

56. Mae gennym bryderon hefyd ynglŷn â dau o'r datblygiadau mwy technegol yn y Bil fel y'i cyflwynwyd fis Rhagfyr. Dylai'r cymal 26 newydd ynglŷn â dehongli cyfraith yr UE a ddargedwir a'r gyfraith berthnasol ar y cytundeb gwahanu gynnwys Gweinidogion Cymru fel ymgyngoreion statudol ar gyfer rheoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion Llywodraeth y DU sy'n darparu ar gyfer pa lysoedd neu dribiwnlysoedd na fydd yn cael eu rhwymo gan unrhyw gyfraith achosion y DU a ddargedwir.

57. Yn olaf, mae'r Bil yn awr yn galluogi trosglwyddo swyddogaethau'r Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer hawliau dinasyddion i gyrff cyhoeddus eraill. Trwy negodi â Llywodraeth y DU, roeddem wedi sicrhau gwelliannau mewn drafftiau cynnar o'r Bil er mwyn darparu modd i Weinidogion Cymru allu gwarchod buddiannau Cymru drwy gael rôl yn y broses o benodi aelod anweithredol o'r Awdurdod gyda gwybodaeth am yr amodau yng Nghymru sy'n ymwneud â'r

materion perthnasol. Fodd bynnag, ni fydd yn ofynnol i’r cam diogelu hwn gael ei estyn i’r trefniadau ar gyfer unrhyw gyrff cyhoeddus eraill sy’n ymgymryd â swyddogaethau’r Awdurdod.

**Goblygiadau ariannol**

58. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na'r Cynulliad yn deillio o'r pwerau o dan y Bil, bydd goblygiadau ariannol sylweddol i Gymru yn sgil ymadawiad y DU â'r UE, a hynny yn ei effaith economaidd gyffredinol ac mewn meysydd ariannu sy'n deillio o'r UE, fel y nodir yn *Diogelu Dyfodol Cymru*.

**Casgliad**

59. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU gan mai hyn fydd yn cynnig y mesur gorau o gysondeb a sicrwydd i ddinasyddion a busnesau ledled y DU. Ond, am y rhesymau a nodwyd uchod, ni all Llywodraeth Cymru argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi ei gydsyniad i'r Bil hwn.

**Mark Drakeford AC**
**Y Prif Weinidog**
**3 Ionawr 2020**

**ATODIAD**

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL: BIL YR UNDEB EWROPEAIDD (YMADAEL) – DARPARIAETHAU SY'N CYNNWYS PWERAU I WEINIDOGION CYMRU WNEUD IS-DDEDDFWRIAETH**

| Darpariaeth | Disgrifiad o'r Pŵer | Y Weithdrefn Ddeddfwriaethol |
|---|---|---|
| Cymal 4<br>Pwerau sy'n cyfateb i adran 3 mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig - yn mewnosod Rhan 1A newydd yn Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (EUWA) | Yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol mewn perthynas â'r cyfnod gweithredu.<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw’r ddarpariaeth yn ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron. | Pan fydd Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain, bydd OS sy'n cynnwys rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu’n dirymu:<br>a) deddfwriaeth sylfaenol,<br>neu<br>b) prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir,<br>yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Bydd unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan Ran 1A o Atodlen 2 i EUWA gan Weinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd â Gweinidog y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 8B ac 8C o Ran 1A o Atodlen 7 i EUWA fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 51 o Atodlen 5 i’r Bil. |

| | | |
|---|---|---|
| Cymal 12(1) Cydnabod cymwysterau proffesiynol | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth fel yr ystyriant sy'n briodol ar gyfer gweithredu Pennod 3 o Deitl II o Ran 2 o'r Cytundeb Ymadael (cymwysterau proffesiynol).<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw'r ddarpariaeth yn ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron<br><br>Gweler hefyd gymal 16 ar gyfer darpariaeth atodol ynglŷn â rheoliadau o dan Ran 3 o'r Bil. | Pan fydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pennau eu hunain, yn gwneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu—<br>(a) deddfwriaeth sylfaenol,<br>neu<br>(b) prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir,<br>maent yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 12 lle y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd â Gweinidog y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 3 a 4 o Atodlen 4 i'r Bil. |
| Cymal 12(2) Cydnabod cymwysterau proffesiynol (cytundeb gwahanu EEA<br>EFTA) | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth fel yr ystyriant sy'n briodol ar gyfer gweithredu Pennod 3 o Deitl II o Ran 2 o Gytundeb gwahanu EEA EFTA (cymwysterau proffesiynol). | Pan fydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pennau eu hunain, yn gwneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu—<br>(a) deddfwriaeth sylfaenol,<br>neu |

| | | |
|---|---|---|
| | Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw'r ddarpariaeth yn ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron<br><br>Gweler hefyd gymal 16 ar gyfer darpariaeth atodol ynglŷn â rheoliadau o dan Ran 3 o'r Bil. | (b) prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir,<br>maent yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae unrhyw offeryn statudol arall, sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 12, lle y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 3 a 4 o Atodlen 4 i'r Bil. |
| Cymal 12(3) Cydnabod cymwysterau proffesiynol (Cytundeb ar hawliau dinasyddion y Swistir) | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth fel yr ystyriant sy'n briodol ar gyfer gweithredu darpariaethau cymwysterau proffesiynol y cytundeb ar hawliau dinasyddion y Swistir.<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw'r ddarpariaeth yn ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron<br><br>Gweler hefyd gymal 16 ar gyfer darpariaeth atodol | Pan fydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pennau eu hunain, yn gwneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu—<br>(a) deddfwriaeth sylfaenol,<br>neu<br>(b) prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir,<br>maent yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae unrhyw offeryn statudol arall, sy'n cynnwys rheoliadau o |

| | | |
|---|---|---|
| | ynglŷn â rheoliadau o dan Ran 3 o’r Bil. | dan adran 12, lle y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 3 a 4 o Atodlen 5 i’r Bil. |
| Cymal 13(1) Cydlynu systemau nawdd cymdeithasol | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth fel yr ystyriant sy'n briodol ar gyfer gweithredu Teitl III o Ran 2 o'r Cytundeb Ymadael (cydlynu systemau nawdd cymdeithasol).<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw’r ddarpariaeth yn ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron<br><br>Gweler hefyd gymal 16 ar gyfer darpariaeth atodol ynglŷn â rheoliadau o dan Ran 3 o’r Bil. | Pan fydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pennau eu hunain, yn gwneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu’n ddirymu—<br>a) deddfwriaeth sylfaenol,<br>neu<br>b) prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir,<br>maent yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae unrhyw offeryn statudol arall, sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 13, lle y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd ag |

| | | |
|---|---|---|
| | | un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 3 a 4 o Atodlen 4 i’r Bil. |
| Cymal 13(2)<br>Cydlynu systemau nawdd cymdeithasol (cytundeb gwahanu EEA EFTA) | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth fel yr ystyriant sy'n briodol ar gyfer gweithredu Teitl III o Ran 2 o gytundeb gwahanu EEA EFTA (cydlynu systemau nawdd cymdeithasol).<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw’r ddarpariaeth yn ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron<br><br>Gweler hefyd gymal 16 ar gyfer darpariaeth atodol ynglŷn â rheoliadau o dan Ran 3 o’r Bil. | Pan fydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pennau eu hunain, yn gwneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu’n dirymu—<br>a) deddfwriaeth sylfaenol,<br>neu<br>b) prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir,<br>maent yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae unrhyw offeryn statudol arall, sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 13, lle y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 3 a 4 o Atodlen 4 i’r Bil. |
| Cymal 13(3)<br>Cydlynu systemau nawdd cymdeithasol (cytundeb ar | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth fel yr ystyriant sy'n briodol ar gyfer gweithredu darpariaethau cydlynu nawdd cymdeithasol | Pan fydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pennau eu hunain, yn gwneud rheoliadau |

| | | |
|---|---|---|
| hawliau dinasyddion y Swistir) | y cytundeb ar hawliau dinasyddion y Swistir.<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw'r ddarpariaeth yn ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler hefyd gymal 16 ar gyfer darpariaeth atodol ynglŷn â rheoliadau o dan Ran 3 o'r Bil. | sy'n diwygio, yn diddymu neu'n ddirymu—<br>(a) deddfwriaeth sylfaenol,<br>neu<br>(b) prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir,<br>maent yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae unrhyw offeryn statudol arall, sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 13, lle y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 3 a 4 o Atodlen 4 i'r Bil. |
| Cymal 14(1)<br>Peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr etc. | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud y cyfryw ddarpariaeth ag yr ystyriant sy'n briodol at y diben o weithredu unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn o'r Cytundeb Ymadael:<br>(a) Erthygl 12 (gwahardd gwahaniaethu ar sail cenedligrwydd);<br>(b) Erthygl 23 (yr hawl i driniaeth gyfartal);<br>(c) Erthyglau 24(1) a 25(1) (hawliau gweithwyr a'r hunangyflogedig); | Pan fydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pennau eu hunain, yn gwneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu—<br>(a) deddfwriaeth sylfaenol,<br>neu<br>(b) prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, |

| | | |
|---|---|---|
| | (d) Erthyglau 24(3) a 25(3) (hawliau gweithwyr y ffin sy’n gyflogedig neu’n hunangyflogedig) mewn perthynas â’r hawliau sydd gan weithwyr.<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw’r ddarpariaeth yn ymwneud â maes sydd wedi’i ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron<br><br>Gweler hefyd gymal 16 ar gyfer darpariaeth atodol ynglŷn â rheoliadau o dan Ran 3 o’r Bil. | maent yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 14 lle y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 3 a 4 o Atodlen 4 i’r Bil. |
| Cymal 14(2) Peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr etc. (cytundeb gwahanu EEA EFTA) | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud y cyfryw ddarpariaeth ag yr ystyriant sy'n briodol at y diben o weithredu unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn o gytundeb gwahanu EEA EFTA—<br>(a) Erthygl 11 (gwahardd gwahaniaethu ar sail cenedligrwydd);<br>(b) Erthygl 22 (yr hawl i driniaeth gyfartal);<br>(c) Erthyglau 23(1) a 24(1) (hawliau gweithwyr a'r hunangyflogedig);<br>(d) Erthyglau 23(3) a 24(3) (hawliau gweithwyr y ffin cyflogedig neu hunangyflogedig) mewn perthynas â’r hawliau sydd gan weithwyr.<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw’r ddarpariaeth | Pan fydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pennau eu hunain, yn gwneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu’n dirymu—<br>(a) deddfwriaeth sylfaenol,<br>neu<br>(b) prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, maent yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae unrhyw offeryn statudol arall, sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 14, lle y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu |

| | | |
|---|---|---|
| | yn ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron<br><br>Gweler hefyd gymal 16 ar gyfer darpariaeth atodol ynglŷn â rheoliadau o dan Ran 3 o'r Bil. | hunain yn destun y weithdrefn negyddol. Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 3 a 4 o Atodlen 4 i'r Bil. |
| Cymal 14(3) Peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr etc. (cytundeb ar hawliau dinasyddion y Swistir) | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud y cyfryw ddarpariaeth ag yr ystyriant sy'n briodol at y diben o weithredu unrhyw un o'r darpariaethau a ganlyn o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion y Swistir—<br>(a) Erthygl 7 (gwahardd gwahaniaethu ar sail cenedligrwydd);<br>(b) Erthygl 18 (yr hawl i driniaeth gyfartal etc);<br>(c) Erthygl 19 (hawliau personau cyflogedig neu hunangyflogedig etc.);<br>(d) Erthygl 20(1) (hawliau gweithwyr y ffin);<br>(e) Erthygl 23(1) (hawliau personau sy'n darparu gwasanaethau).<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw'r ddarpariaeth yn ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler hefyd gymal 16 ar gyfer darpariaeth atodol ynglŷn â rheoliadau o dan Ran 3 o'r Bil. | Pan fydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pennau eu hunain, yn gwneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu'n ddirymu—<br>(a) deddfwriaeth sylfaenol,<br>neu<br>(b) prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir,<br>maent yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae unrhyw offeryn statudol arall, sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 14, lle y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 3 a 4 o Atodlen 4 i'r Bil. |

| | | |
|---|---|---|
| Pwerau Cymal 19 sy'n cyfateb i adran 18 mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig<br><br>Yn mewnosod Rhan 1B newydd yn Atodlen 2 i EUWA.<br><br>Darpariaeth paragraff 11G(1) mewn perthynas â materion gwahanu penodol eraill | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud y cyfryw ddarpariaeth ag yr ystyriant sy'n briodol ar gyfer gweithredu Rhan 3 o'r Cytundeb Ymadael (darpariaethau gwahanu).<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw'r ddarpariaeth yn ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron. | Pan fydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pennau eu hunain, yn gwneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu'n ddirymu—<br>(a) deddfwriaeth sylfaenol,<br>neu<br>(b) prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir,<br>maent yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Bydd unrhyw offeryn statudol arall, sy'n cynnwys rheoliadau o dan Ran 1B o Atodlen 2, lle y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 8D ac 8E o Ran 1A o Atodlen 7 i EUWA fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 51 o Atodlen 5 i'r Bil. |
| Pwerau Cymal 19 sy'n cyfateb i adran 18 mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud y cyfryw ddarpariaeth ag y mae'r awdurdod datganoledig yn ystyried ei bod yn briodol ar gyfer gweithredu Rhan 3 o | Pan fydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pennau eu hunain, yn gwneud rheoliadau |

| | | |
|---|---|---|
| Yn mewnosod Rhan 1B newydd yn Atodlen 2 i EUWA<br><br>Darpariaeth paragraff 11G(3) mewn perthynas â materion gwahanu penodol eraill (cytundeb gwahanu EEA EFTA) | gytundeb gwahanu EEA EFTA (darpariaethau gwahanu).<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw'r ddarpariaeth yn ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron. | sy'n diwygio, yn diddymu neu'n ddirymu—<br>(a) deddfwriaeth sylfaenol,<br>neu<br>(b) prif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir,<br>maent yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Bydd unrhyw offeryn statudol arall, sy'n cynnwys rheoliadau o dan Ran 1B o Atodlen 2, lle y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 8D ac 8E o Ran 1A o Atodlen 7 i EUWA fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 51 o Atodlen 5 i'r Bil. |
| Pwerau Cymal 22 sy'n cyfateb i adran 21 mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig<br><br>Yn mewnosod Rhan 1C newydd yn Atodlen 2 i EUWA | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud y cyfryw ddarpariaeth ag yr ystyriant sy'n briodol ar gyfer gweithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y Cytundeb Ymadael.<br><br>Caiff Gweinidogion Cymru weithredu ar eu pennau eu hunain os yw'r ddarpariaeth | Pan fydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar eu pennau eu hunain, yn gwneud rheoliadau sy'n cynnwys yr hyn a ganlyn:<br>(a) diwygio, diddymu neu ddirymu deddfwriaeth sylfaenol neu brif |

| | | |
|---|---|---|
| Pŵer paragraff 11M mewn perthynas â’r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon | yn ymwneud â maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, neu cânt weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron | ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir,<br>(b) sefydlu awdurdod cyhoeddus,<br>(c) ymwneud â ffi mewn perthynas â swyddogaeth sy'n arferadwy gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig,<br>(d) creu trosedd neu ehangu ei chwmpas,<br>(e) creu neu ddiwygio pŵer i ddeddfu, neu<br>(f) hwyluso mynediad i’r farchnad ym Mhrydain Fawr i nwyddau cymwys o Ogledd Iwerddon; maent yn destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae unrhyw offeryn statudol arall, sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan Ran 1C o Atodlen 2, lle mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 8F ac 8G o Ran 1A o Atodlen 7 i EUWA fel |

| | | |
|---|---|---|
| | | y'i mewnosodwyd gan baragraff 51 o Atodlen 5 i’r Bil. |
| Paragraff 1(3) o Atodlen 5 Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc. | Mae paragraff 1 o Atodlen 5 i’r Bil yn darparu ar gyfer gohirio mawr mewn perthynas â dod ag OSau Ymadael â’r UE i rym o’r diwrnod ymadael tan ddiwedd y cyfnod gweithredu. Mae’r gohirio mawr hwn yn cynnwys OSau sy’n dod i rym gyda chyfeiriad at y diwrnod ymadael.<br><br>Mae paragraff 1(3) o Atodlen 6 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, ddarparu na fydd y gohiriad yn is-baragraff(1) yn gymwys i unrhyw raddau mewn achosion penodol neu ddisgrifiad o achos, neu y bydd yn gwneud darpariaeth wahanol mewn achosion penodol neu ddisgrifiad o achos. | Pan wneir rheoliadau gan Weinidogion Cymru, yn gweithredu ar eu pennau eu hunain, cyn y diwrnod ymadael, ni chymhwysir unrhyw weithdrefn.<br><br>Pan wneir rheoliadau gan Weinidogion Cymru, yn gweithredu ar eu pennau eu hunain, cyn y diwrnod ymadael, neu ar ôl y diwrnod hwnnw, maent yn destun y weithdrefn negyddol<br><br>Mae'r un egwyddor yn gymwys i reoliadau a wneir gan weithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.<br><br>Gweler paragraffau 8 a 9 o Atodlen 4 i’r Bil. |
| Paragraff 3(2) o Atodlen 5 Deddfwriaeth baratoadol ddatganoledig o fath a grybwyllwyd ym mharagraff 41(3) i (5) o Atodlen 8 i EUWA | Mae paragraff 3(1) o Atodlen 5 yn darparu y dylid darllen unrhyw ddarpariaeth o ddeddfwriaeth sylfaenol a wneir cyn y diwrnod ymadael drwy rinwedd is-baragraffau (3) i (5) o baragraff 41 o Atodlen 8 i EUWA, ac y disgwylir iddi ddod i rym drwy gyfeiriad at y diwrnod ymadael, fel pe bai yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.<br><br>Mae paragraff 3(2) yn darparu y Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau | Mae offeryn statudol sy’n cynnwys rheoliadau a wneir o dan baragraff 3(2) o Atodlen 5 a wneir gan Weinidogion Cymru ar y diwrnod ymadael, neu ar ôl y diwrnod hwnnw, yn destun y weithdrefn negyddol.<br><br>Pan wneir rheoliadau cyn y diwrnod ymadael, nid ydynt yn destun unrhyw weithdrefn. |

| | | |
|---|---|---|
| | (a) darparu fel na chymhwysir is-baragraff (1) i unrhyw raddau mewn achosion penodol neu ddisgrifiadau o achos;<br>(b) gwneud gwahanol ddarpariaeth mewn achosion penodol neu ddisgrifiadau o achos i'r rheini a wneir gan is-baragraff (1), neu<br>(c) wneud y cyfryw ddarpariaeth ag yr ystyria Gweinidogion Cymru sy'n briodol o ganlyniad i is-baragraff (1) (gan gynnwys darpariaeth sy'n ailddatgan effaith yr is-baragraff hwnnw). | Gweler paragraff 10 o Atodlen 4 i'r Bil. |